

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser: cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021

**Beth:** Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser: Adfer a Thrawsnewid Gwasanaethau Canser; **Pryd:** 30 Medi 14:00 – 15:30; **Ble:** Microsoft Teams

### Agenda

Amser	Eitem ar yr agenda
14:00	Croeso gan David Rees AS
14:05	Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol: Ethol Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth
14:15	Judi Rhys, Prif Weithredwr, Gofal Canser Tenovus
14:25	Bami Adenipekun, Inspired to Soar
14:35	Anthony Davies, Uwch Reolwr Polisi ar Gyflyrau Iechyd Difrifol, Llywodraeth Cymru
14:45	Claire Birchall, diweddariad gan Rwydwaith Canser Cymru
14:50	Trafodaeth banel a sesiwn holi ac ateb; David Rees AS yn cadeirio
15:30	Sylwadau i gloi: David Rees AS

### Siaradwyr

Judi Rhys  
Bami Adenipekun  
Yr Athro Tom Crosby  
Claire Birchall  
Anthony Davies

### Ysgrifenyddiaeth

Alaw Davies, CRUK

### Pwnc

#### **1. Effaith COVID-19 ar ofal canser a sut rydym yn trawsnewid gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y dyfodol**

Bwriad sesiwn y Grŵp Trawsbleidiol yw rhoi trosolwg o wasanaethau canser yng Nghymru, gyda ffocws ar adfer a thrawsnewid gwasanaethau yn dilyn COVID-19.

Mae'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau canser yng Nghymru wedi gwaethygu yn sgil COVID-19. Mae gwasanaethau canser wedi cael eu taro'n ddifrifol, gyda tharfau sylweddol ar wasanaethau diagnostig a thriniaeth, yn enwedig yn ystod anterth y don gyntaf. Er gwaethaf gwaith caled ac ymdrechion gorau Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod ton gyntaf y pandemig, roedd atgyfeiriadau brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser gan wasanaethau sylfaenol a diagnostig yn is na'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Yn ogystal, cafodd gweithgarwch sgrinio ym maes canser ei atal dros dro, a chafodd rhai llawdriniaethau dewisol ym maes canser eu canslo neu eu newid i driniaeth wahanol. Rydym bellach yn ymwybodol bod 1,700 yn llai o bobl wedi dechrau triniaeth canser yng Nghymru yn y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021.

Er bod llawer o wasanaethau canser bellach wedi dychwelyd i raddau helaeth i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig, mae angen trawsnewid gwasanaethau ar fyrder er mwyn parhau i sicrhau adferiad yn dilyn COVID a gwella canlyniadau canser yn y tymor hir.

#### **2. Sesiwn loywi ar y Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser ym mis Mawrth 2021, a hynny fel olynydd i'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser 2016, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2020. Mae hwn yn gynllun pum mlynedd sydd â'r nod o wella ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau canser. Mae'r Datganiad Ansawdd yn cynnwys ffocws uniongyrchol, tymor byr ar sicrhau adferiad. Mae hefyd yn ystyried potensial gwaith arloesi trawsnewidiol, fel biopsïau hylif, ar gyfer y tymor hwy. Fodd bynnag, ei brif ffocws yw datblygu gwasanaethau yn y tymor canolig yn ystod y tymor Seneddol hwn.

Cafodd y broses o gyflwyno datganiadau ansawdd ei chrybwyll yn y ddogfen *Cymru Iachach*, ac mae'r broses honno'n cael ei disgrifio yn y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol fel y lefel nesaf o gynllunio cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau clinigol penodol. Mae'n rhan o'r ffocws cryfach sy'n cael ei roi ar sicrhau ansawdd wrth ddarparu gofal iechyd, yn unol â'r hyn a nodir yn *Cymru Iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol*, ac yn y *Fframwaith Ansawdd a Diogelwch*, sy'n disgrifio datganiadau Ansawdd fel rhan annatod o'r trefniadau cynllunio ac atebolrwydd ar gyfer y GIG yng Nghymru yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd gynllun y gwasanaethau iechyd a gofal i adfer ar ôl y pandemig ym mis Mawrth 2021.

### **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

- Cafodd David Rees AS ei ailethol yn gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol.
- Cafodd Alaw Davies ei hethol yn Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol

#### **1. Croeso**

Agorodd David Rees AS (Cadeirydd) y cyfarfod, gan groesawu aelodau'r grŵp. Disgrifiodd y Cadeirydd yn gryno yr agenda a'r drefn gwrteisi ar gyfer y cyfarfod. Cyflwynodd y Cadeirydd aelodau'r panel.

#### **2. Cyflwyniad gan Judi Rhys, Prif Weithredwr Gofal Canser Tenovus**

Croesawodd y Cadeirydd Judi Rhys. Gwnaeth Judi Rhys gyflwyniad ar effaith COVID-19 ar wasanaethau canser a'r trydydd sector. Diolchodd JR i'r Cadeirydd am y gwahoddiad i siarad. Nododd JR fod IW wedi nodi'r gwahaniaeth rhwng elusennau mwy yn y sector a'u darpariaethau o gymharu ag elusennau llai, sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr, gan ddisgrifio sut y maent wedi bod dan anfantais yn ystod y pandemig. Nododd JR fod yr effaith ar elusen Gofal Canser Tenovus wedi bod yn sylweddol, yn enwedig o ran codi arian a gweithgarwch manwerthu. Esboniodd JR fod elusen Gofal Canser Tenovus wedi cael ei gorfodi i gau 60 o siopau manwerthu. Mae 40 o'r siopau hyn yng Nghymru, ac yn darparu 60 y cant o incwm yr elusen. Gresynodd JR y ffaith bod diswyddiadau wedi digwydd ar raddfa fawr, a'r ffaith bod rhwng 30 y cant a 35 y cant o staff yr elusen wedi colli eu swyddi. O ganlyniad i'r pandemig, bu gofyn i elusen Gofal Canser Tenovus wneud y penderfyniad anodd hefyd i atal unrhyw ymchwil newydd. Gwnaeth yr elusen benderfyniad mawr i ganolbwyntio ar wasanaethau ar gyfer y bobl y mae canser wedi effeithio arnynt drwy gydol y pandemig, i gryfhau ei swyddogaethau polisi a materion cyhoeddus, ac i gynyddu ei gwaith ymgysylltu lleol â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Rhan allweddol o'r strategaeth newydd yw archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio a meithrin partneriaethau gydag amrywiaeth o bartneriaid. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys ariannu PhD ar y cyd â Northwest Cancer Research, yn ogystal ag ariannu seicolegydd clinigol ar gyfer Gofal Canser Tenovus sy'n gweithio yng nghanolfan Maggie's yn Felindre.

Fel pawb arall, mae elusen Gofal Canser Tenovus wedi symud llawer o'i gwasanaethau ar-lein. Yn ffodus, mae'r elusen wedi llwyddo hefyd i amddiffyn llawer o'i gwasanaethau symudol. Mae Gofal Canser Tenovus yn ymwybodol o effaith drychinebus y pandemig ar bobl y mae canser yn effeithio arnynt, ble bynnag y maent ar eu taith. Mae gan elusen Gofal Canser Tenovus bryderon difrifol am yr holl bobl nad ydynt wedi cael mynediad at y system drwy wasanaethau sgrinio na thrwy ymweld â'u meddyg teulu, ac mae'r elusen wedi siarad am hynny yn y cyfryngau.

Fel elusen sydd wedi'i lleoli yng Nghymru, mae Gofal Cancer Tenovus wedi ceisio cefnogi'r GIG drwy gydol y pandemig. Mae Gofal Cancer Tenovus wedi ymgymryd â gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â chanser, fel cynnig ei wasanaethau symudol i Wasanaeth Ambiwlans Cymru at ddibenion darparu brechlynnau COVID-19 yng ngorllewin Cymru. Mae'r elusen yn awyddus i gefnogi'r GIG mewn unrhyw ffordd sy'n ddefnyddiol, gan fod JR yn deall bod angen cydweithio. Nododd JR nad yw'r rhethreg ynghylch cydweithio bob amser yn cael ei gwireddu.

Nododd JR y risgiau sylweddol y bydd gwasanaethau canser yn parhau i'w hwynebu dros gyfnod y gaeaf yn sgil y pandemig, gan nodi hefyd y ffaith na fydd y broses o adfer gwasanaethau canser yn broses linol nac yn digwydd mor gyflym ag y mae pobl yn gobeithio. Pwysleisiodd JR bwysigrwydd mabwysiadu dull cydgysylltiedig o weithio ar draws y llwybr canser.

Mae Gofal Cancer Tenovus yn aelod o Gynghair Canser Cymru ac yn cefnogi ei blaenoriaethau. Fodd bynnag, mae'r elusen wedi bwrw ymlaen â blaenoriaethau penodol, megis y gweithlu, diagnosteg hygyrch, â'r angen i barhau i arloesi. Nododd JR y gall y GIG ddysgu gwersi o'r arloesi a welir mewn sectorau eraill, gan ymbilio ar y GIG i fod yn fwy agored i syniadau ac i'r broses o ddatblygu partneriaethau cryfach a mwy cyfartal â'r trydydd sector.

Mae Gofal Cancer Tenovus yn parhau i ganolbwyntio ar geisio dod o hyd i'r bobl nad ydynt wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig. Mae'r elusen wedi tynnu sylw at y mater hwn o'r cychwyn cyntaf, a hynny fel un o ganlyniadau anfwriadol COVID-19. Yn ogystal, nododd JR effaith COVID-19 ar waith ymchwil.

### **3. Cyflwyniad gan Bami Adenipekun, Inspired to Soar**

Croesawodd y Cadeirydd Bami Adenipekun. Gwnaeth BA gyflwyniad ynghylch yr achos dros flaenoriaethu gofal canser yng Nghymru, gan siarad o safbwynt y claf. Esboniodd BA ei bod hi'n glaf yn anad dim, wedi iddi gael diagnosis o ganser y fron yn 2013 a cholli ei Mam a'i chwaer i ganser. Eglurodd BA fod hyn yn golygu ei bod hi hefyd yn gallu siarad o safbwynt gofalwr ac aelod o'r teulu, yn ogystal ag o safbwynt storiwr ac eiriolwr. Nododd BA hefyd ei bod hi'n fenyw Ddu Brydeinig, ac yng nghyd-destun COVID-19, mae'n bwysig nodi bod effeithiau'r pandemig wedi bod yn fwy dinistriol fyth i gymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Nododd BA y bydd un o bob dau o bobl a anwyd ar ôl 1960 yn cael canser yn ystod eu hoes, ac ar hyn o bryd, mae hynny'n golygu 77.5 y cant o boblogaeth y DU. Mewn darn o waith ymchwil a wnaed gan raglen *Panorama* ar y BBC yn 2020, nodwyd y bydd rhwng 11,000 a 35,000 o farwolaethau canser ychwanegol o ganlyniad i oedi triniaethau a chanslo gwasanaethau diagnostig. Cyn i'r pandemig ddod i'r amlwg, roedd gwasanaethau canser yng Nghymru eisoes o dan straen yn absenoldeb nifer digonol o staff i ymdrin â nifer cynyddol o achosion o ganser.

Pwysleisiodd BA bwysigrwydd buddsoddi nawr mewn gwasanaethau canser. Nododd BA fod y canlyniadau a welwyd dros y 18 mis diwethaf wedi cael effaith ddinistriol a fydd ond yn gwaethygu os na fydd unrhyw gamau pendant yn cael eu cymryd. Pwysleisiodd BA bwysigrwydd cofio mai pobl sydd y tu ôl i'r ffigurau – efallai eich cydweithwyr annwyl, neu efallai chi eich hun. Yn anffodus, mae'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser ar ei ffurf bresennol yn golygu bod llawer o bobl yn wynebu'r perygl o ddiagnosis hwyr a phrognosis gwael.

Eglurodd BA ei bod yn hollbwysig gweithredu'n gyflym, ac y gall cael diagnosis cynnar wneud y gwahaniaeth rhwng mam yn cael cyfle i weld ei phlant yn tyfu i fyny a marw yn ystod ei dyddiau gorau. O ran sicrhau mynediad ehangach at driniaeth arloesol, y rhodd o dreulio amser gydag anwyliaid yng nghyd-destun diwedd oes yw'r peth sy'n peri syndod i bobl. Am y tro cyntaf ers degawdau, mae risg y bydd y gwelliannau a wnaed o ran gwella cyfraddau goroesi canser yng Nghymru yn cael eu gwrthdroi.

Nododd BA y bydd cynyddu'r buddsoddiad mewn gwasanaethau canser yn cynyddu'r siawns o guro canser a byw heb unrhyw dystiolaeth o'r clefyd. Dywedodd BA mai dyna'r peth y mae cleifion a'u hanwyliaid am weld yn fwy na dim, ac mai dyna y mae pobl Cymru yn ei haeddu.

#### 4. Cyflwyniad gan Anthony Davies, Llywodraeth Cymru

Croesawodd y Cadeirydd Anthony Davies. Dyfynnodd Anthony Davies rhan o'r ddogfen 'Cymru Iachach: Gwerthoedd Craidd GIG Cymru' drwy nodi mai prif ffocws ei swyddfa yn Llywodraeth Cymru yw "Rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth – darparu gofal gwerth uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ein cleifion bob amser."

Ailadroddodd AD y datganiad a ganlyn, sydd i'w weld yn *Cymru Iachach*: "Bydd cyfres o ddatganiadau ansawdd yn cael eu datblygu ar gyfer y GIG sy'n disgrifio'r canlyniadau yr ydym yn disgwyl eu gweld mewn gwasanaethau safon uchel sy'n canolbwyntio ar y claf. Bydd y rhain yn gosod ein dyheadau i'w cyflawni yn gyson ar draws Cymru. Byddant yn rhan o'r goruchwyllo cenedlaethol drwy'r Fframwaith Cynllunio a'r drefn rheoli perfformiad." Eglurodd AD fod Llywodraeth Cymru am adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i wneud gyda'r cynlluniau cyflawni, ond ei bod hefyd am symud ymlaen o oes y cynllun cyflawni. Mae tri pheth i'w cymryd o'r datganiad: bod y Llywodraeth am feddu ar y gallu i ddisgrifio'r hyn a olygir gan 'ansawdd uchel'; ei bod am gyflawni hyn yn gyson ledled Cymru; a'i bod am ddatblygu cysylltiad agosach â'r drefn gynllunio a pherfformiad.

Nododd AD y 22 o bethau y mae'r Llywodraeth am eu cyflawni, sydd wedi'u nodi yn y Datganiad Ansawdd. Tynnodd AD sylw penodol at bump o'r ymrwymadau hyn:

1. Mae'r gweithlu canser wedi'i gynllunio i ateb y galw a ragwelir; yn benodol, oncoleg glinigol ac oncoleg feddygol, niysys canser arbenigol, ffiseg feddygol, a radiograffwyr therapiwtig.
2. Ffocws uniongyrchol ar lefel system ar adfer cyfaint y rhestrau aros a oedd yn bodoli cyn y pandemig.
3. Mae gwasanaethau canser mwy arbenigol sy'n fregus neu'n methu â bodloni safonau hanfodol wedi cael eu had-drefnu ar ffurf gwasanaethau mwy gwydn ar lefel rhanbarthol, uwch-ranbarthol neu genedlaethol.
4. Mae'r Llwybr Canser Sengl a'r Llwybrau Gorau Posibl yn Genedlaethol yn gynhwysfawr ac wedi'u hymgorffori'n ddoeth yn y broses o ddarparu gwasanaethau lleol.
5. Mae cofnodion cleifion canser yn cael eu darparu ar lwyfan TG modern a gwydn sy'n caniatáu mwy o ofal integredig ac sydd hefyd yn darparu data perthnasol ar gyfer llywio'r broses o ddatblygu gwasanaethau.

Eglurodd AD fod gan yr ymrwymadau hyn oblygiadau weddol fawr, gan nodi y bydd angen llawer o waith, buddsoddi a ffocws yn eu cylch dros y blynyddoedd i ddod. Mynegodd AD y farn nad yw'r ymrwymadau hyn yn rhai dibwys.

Nododd AD nad yw'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser yn ddatganiad ynysig, a'i fod yn un o gyfres o ddatganiadau Ansawdd sy'n gysylltiedig â pholisïau eraill, megis cynllunio'r gweithlu. Cadarnhaodd AD fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn atebol am unrhyw un o'r polisïau hynny a'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser.

Eglurodd AD sut y bydd swyddogaeth y Weithrediaeth Genedlaethol yn gweithio. Manylodd AD ar ddiagram a oedd yn amlinellu strwythur y system o'r brig i lawr: Llywodraeth Cymru; yna, yr ymyriadau y bydd Gweithrediaeth y GIG yn eu gwneud, gan gynnwys y Rhaglen Gofal Sylfaenol, y Rhaglen Gofal Brys, y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio, y Rhaglen Gofal Diwedd Oes, y Rhwydweithiau Clinigol Cenedlaethol, a'r Unedau Cymorth Cenedlaethol. Esboniodd AD y bydd gan y rhwydweithiau rôl bwysig i'w chwarae yng nghyd-destun swyddogaeth y Weithrediaeth o ran darparu arweinyddiaeth genedlaethol, hwyluso cydweithio rhwng cyrff y GIG a datblygu llwybrau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Nododd AD y camau nesaf i'w cymryd, gan gynnwys sefydlu bwrdd y rhwydwaith canser newydd; ymgorffori'r datganiadau ansawdd yn fframwaith cynllunio'r GIG; sicrhau bod darparwyr lleol yn adlewyrchu ymrwymadau perthnasol yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig; datblygu cynllun arwain a galluogi ar gyfer y rhwydwaith; ychwanegu manylebau gwasanaeth, Partneriaethau Oncoleg Cenedlaethol a metrigau ychwanegol o'r fframwaith canlyniadau; a pharatoi ar gyfer swyddogaeth Gweithrediaeth y GIG.

## 5. Cyflwyniad gan Claire Birchall, Rhwydwaith Canser Cymru

Croesawodd y Cadeirydd Claire Birchall. Gwahoddwyd iddi roi diweddariad ar Rwydwaith Canser Cymru. Dywedodd CB y byddai'n rhoi cyflwyniad ynghylch gweithgarwch y rhwydwaith yn ystod COVID-19 a'r cyfraniad a wnaed ganddo, yn ogystal â'r hyn y mae'n ei wneud ar hyn o bryd a sut y bydd yn gweithredu yn y dyfodol.

Atgoffodd CB yr aelodau fod y rhwydwaith yn eistedd o fewn Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru, a'i fod yn gweithio ar ran Prif Weithredwr y GIG, ac ar ran byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ledled Cymru, gan roi cyngor a chymorth ar gyfer y broses o ddarparu gwasanaethau cancer ledled Cymru.

Cafodd y rhwydwaith ei anfon adref yn syth ar ôl i'r pandemig ein taro, ac roedd hyn yn destun rhwystredigaeth gan fod angen cefnogaeth ar y GIG yn fwy nag erioed. Felly, daeth y rhwydwaith yn grŵp arbenigol o gydweithwyr a oedd yn darparu cyngor ar gynllun a oedd yn newid yn gyflym. Dyma enghreifftiau o'r broses honno: newid i ganllawiau ar gyfer triniaeth; mathau o driniaethau; gohirio triniaethau; a mynd ati i geisio deall effaith y pandemig ar wasanaethau cancer. Roedd agweddau technegol hefyd yn ymwneud â chael cyfundrefn wahanol ar gyfer radiotherapi, ynghyd â darparu cyngor a chymorth ar gyfer llwybrau.

Un cam a gymerwyd gan y rhwydwaith oedd tynnu grŵp clinigol at ei gilydd lle'r oedd uwch swyddogion ar gael o bob un o'r safleoedd tiwmor ar draws y byrddau iechyd, a hynny at ddibenion meddwl am arbenigedd ac arweiniad clinigol ynghylch sefydlogi a symud ymlaen. Yr ail weithred oedd datblygu rheolwyr gweithredol ym maes cancer o bob un o'r byrddau iechyd. Cyfrannodd y rhwydwaith hefyd at nifer o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus, ochr yn ochr â chydweithwyr ac elusennau.

Ar hyn o bryd, mae'r rhwydwaith wrthi'n monitro'r effaith ac yn bwydo'r wybodaeth honno yn ôl i gydweithwyr, yn ogystal â rhannu meysydd pryder. Mae gan y rhwydwaith nifer o raglenni â blaenoriaeth, fel y Llwybr Canser Sengl. Un prosiect a gafodd ei ddechrau cyn COVID-19 oedd y prosiect Clinigau Diagnosis Cyflym, lle'r oedd gan y rhwydwaith rai cynlluniau peilot yn mynd rhagddynt. Yn ystod y pandemig, cododd cyfle i gael cyllid i lansio rhagor o gynlluniau peilot ar gyfer y prosiect Clinigau Diagnosis Cyflym. Un o'r heriau cyfredol yw sicrhau mynediad cyfartal i Glinigau Diagnosis Cyflym ar draws Cymru. Felly, mae'r rhwydwaith wedi buddsoddi yn yr ardaloedd sy'n parhau i gael trafferth o ran cael mynediad at y clinigau hyn.

Mae'r rhwydwaith wrthi'n gweithio ar elfen gyflawni y Datganiad Ansawdd. Mae rhan o'r gwaith hwnnw'n canolbwyntio ar y gweithlu, a bydd y rhwydwaith yn gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddeall y cyfyngiadau a'r pwysau ar y gweithlu, yn ogystal â'r rolau a'r cyfrifoldebau newydd y mae eu hangen i gyflawni'r agenda honno.

## 6. Trafodaeth banel

- Trafododd y grŵp yr angen i sefydliadau ac elusennau weithio mewn partneriaeth ac ymrwymo adnoddau at ddibenion goresgyn y problemau sy'n wynebu gwasanaethau cancer yng Nghymru. Trafododd y grŵp sut y mae gwasanaethau gwirio iechyd yr ysgyfaint yn cael eu cefnogi, ond roedd y grŵp yn cydnabod y byddai cydweithwyr yn wynebu llwyth gwaith a galw cynyddol. Tynnwyd sylw hefyd at y materion gweithlu y mae angen mynd i'r afael â hwy. Dywedodd yr aelodau mai gwelliannau yn ymwneud â'r gweithlu fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf o ran canlyniadau cleifion, a gofynnodd yr aelodau gwestiynau am yr amserlen ar gyfer y cynllun adfer cancer.

- **Cloi**

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl siaradwyr a'r holl gyfranogwyr am eu cyfraniadau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 15:30**

## Yn bresennol

1. Alaw Davies (Ysgrifenyddiaeth)
2. Judi Rhys
3. Joel James AS
4. Chris Rowland
5. Katie Till
6. Bami Adenipekun
7. David Rees AS (Cadeirydd)
8. Jaynie Old Mill Cancer Foundation
9. Mandy Edwards
10. Sarah Beard
11. Joe Kirwin
12. Darren Northall
13. Caroline Townsend
14. Malcolm Mason
15. Dawn Casey
16. Joe Woollcott
17. Richard Daniels
18. Bernadette McCarthy
19. Hannah O'Mahoney
20. Joanne Ferris
21. Georgina Smerald
22. Mike Hedges AS
23. Sikha de Souza
24. Madelaine Phillips
25. Sara Bale
26. Siân Lewis
27. Cefin Campbell AS
28. Louise Carrington
29. Claire Birchall
30. Rachel Downing
31. Anthony Davies
32. Greg Pycroft
33. Lubna Latif
34. Deborah Roebuck
35. Maggie Clark
36. Craig Lawton
37. Bethan Hawkes
38. Tom Crosby
39. Calum Forrester-Paton
40. Thomas Davies
41. Richard Adams
42. Lowri Griffiths

43. Gareth Popham
44. Ryland Doyle
45. Hannah Wright
46. Joseph Carter
47. Mark Isherwood AS
48. Rhun ap Iorwerth AS